

Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar COVID Hir

20/10/2021

Yn bresennol

Rhun ap Iorwerth

Hefin David

Joseph

Mabon ap Gwynfor

Daisy N

Sarah Murphy

Russell George

Andrew Bettridge

Geraldine McCaffrey

Sian Griffiths – COVID Hir Cymru

Dee Montague

Lee Bowen – COVID Hir Cymru

Helen James

Dale Thomas

Ian Frayling – COVID Hir Cymru

Kathryn Tancock - COVID Hir Cymru

Georgia Walby – COVID Hir Cymru

Cymdeithas Ddeieteg Prydain

Calum H

Kathryn Gower

Calum Higgins

Heledd Roberts

Sharron Dutton (ysgrifennydd Dr Helen Davies)

Agenda

- Geraldine McCaffrey, Fferyllydd Arweiniol, Ymchwil a Datblygu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i siarad
- Y wybodaeth ddiweddaraf gan Georgia Walby, yn cynrychioli tîm Ymgyrch COVID Hir Cymru
- Hefin David yn trafod y system ar gyfer llywio gofal yng Nghymru.

Pwyntiau sy'n codi o Gyflwyniad Geraldine

- Diffyg opsiynau o ran triniaeth ar gyfer cleifion COVID Hir. Mae mynediad at wasanaethau hefyd yn broblem.
- Mae astudiaeth HEAL COVID yn mynd rhagddi, ond dim ond i gleifion sydd yn yr ysbyty y mae'r astudiaeth hon yn berthnasol.
- Mae'n rhaid cofnodi data mewn ffordd gadarn. Nod gwaith ymchwil ym maes gofal iechyd Cymru ac astudiaethau penodol fel HEAL yw helpu i gofnodi'r dystiolaeth.
- Gwahaniaeth rhwng y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr. Nid yw meddygon teulu yn ymwybodol o'r gwasanaethau y gallant gyfeirio atynt.
- Dr Ian Frayling – Mae angen fforwm arnom er mwyn i feddygon, fferyllwyr ac ati gael gafael ar wybodaeth am strategaethau fel defnyddio meddyginiaethau cyffredin i helpu i drin rhai cleifion COVID. Gellir dogfennu canlyniadau arbrolfod hefyd. Dylai clinigau COVID Hir gael eu cynnal gan y rhai sydd ag arbenigedd yn y maes hwn.
- Rhun ap Iorwerth – mae'n rhaid coladu gwybodaeth yn ganolog am reoli symptomau a rheoli triniaeth.
- Georgia Walby – mae yna fwllch rhwng pwynt gorffen gwaith ymchwil ffurfiol sydd flynyddoedd i ffwrdd o ddod i ben a'r meddyginiaethau anffurfiol y gellir eu treialu nawr. Nid oes gennym glinigau COVID Hir, felly ni chynigir triniaethau anffurfiol o'r fath yng Nghymru, yn wahanol i Loegr.
- Daisy Norton – Mae Cydffederasiwn GIG Cymru yn cyfarfod i gael trosolwg o'r gwasanaethau COVID Hir yng Nghymru.
- Hefin - y mater ehangach y mae'n ymdrin ag ef ar hyn o bryd yw llywio gofal a chael mynediad at ddarparwyr gofal iechyd amgen yn uniongyrchol. Ysgrifennodd lythyr at y Prif Weinidog ar y mater hwn. Nid yw'r broses hon yn ddigonol yng Nghymru ac mae hyn yn effeithio ar gleifion sydd â COVID Hir.

Y wybodaeth ddiweddaraf gan Georgia Walby

- Mae'r diffyg clinigau meddygol ar gyfer COVID Hir yng Nghymru yn fater sy'n parhau.
- Mae yna bryderon ynghylch seicolegu COVID Hir yng Nghymru. Caiff rhai gwasanaethau COVID Hir yng Nghymru eu rhedeg gan seicolegwyr.
- Mae cleifion COVID Hir o dan ofal therapïau yng Nghymru. Mae angen gofal meddygol arnynt ac nid dim ond gwasanaethau adsefydlu.
- Mae llawer o gleifion bellach yn wynebu anawsterau ariannol difrifol, gyda chyflog salwch a'r cynllun cymorth incwm i'r hunangyflogedig drwy gyfnod Coronafeirws wedi dod i ben. Mae pobl yn wynebu caledi ariannol.

- Mae angen cydnabyddiaeth ehangach o ddifrifoldeb y cylch gwaith hwn, gan gynnwys y posibilrwydd o gael ail bwl o salwch.
- Mae pobl yn ei chael hi'n anodd dychwelyd i'r gwaith. Mae llawer wedi methu dychwelyd i'r gwaith ar sawl achlysur. Rhaid cael proses lawer hirach wrth i bobl ddychwelyd yn raddol.
- Mae'n rhaid cynnwys cleifion o'r dechrau wrth lunio gwasanaethau COVID Hir yng Nghymru – mae COVID Hir Cymru wedi brwydro i fod yn rhan o'r gwaith o adolygu agweddau ar wasanaethau yng Nghymru ond mae angen llawer mwy o ymgynghori a chydweithio arnom i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion cleifion.
- Soniodd Dr Katie Goddard am y pwyntiau canlynol a wnaed gan weithwyr y GIG ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro sydd â COVID Hir:
 - Mae COVID Hir yn salwch galwedigaethol a dylid ei drin felly. Mae rhai gweithwyr wedi'i chael hi'n anodd sicrhau bod eu cyflogwr yn cwblhau adroddiad Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus yn dilyn salwch galwedigaethol.
 - Mae yna ddiffyg cefnogaeth iechyd galwedigaethol oherwydd bod y system o dan gormod o bwysau. Mae rhai cleifion yn dychwelyd i'r gwaith heb apwyntiad iechyd galwedigaethol.
 - Mae yna ddiffyg canllawiau ar ddychwelyd i'r gwaith – mae arnom angen proses ddychwelyd i'r gwaith hir a hyblyg iawn.
 - Bu oedi cyn cyflwyno canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar ymestyn taliadau salwch y tu hwnt i flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae parhau â'r taliadau hyn y tu hwnt i flwyddyn yn ôl disgrisiwn y rheolwr, gan arwain at wahaniaethau yn y ffordd y caiff cyflogieion eu trin.

Camau gweithredu

- Dylid ceisio sicrhau tegwch ariannol, heb fod yn gyfyngedig i weithwyr gofal iechyd, ond yn pwysleisio'r gweithwyr hyn oherwydd eu bod wedi cael COVID yn y gweithle. Rhun i geisio denu sylw at y mater hwn yn y wasg yn ystod y dyddiau nesaf.
- Rhun i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd ynghylch yr angen am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyflogau i gyflogieion sydd â COVID Hir. Bydd yr ohebiaeth hon hefyd yn sôn am yr angen parhaus am wasanaethau meddygol dan arweiniad meddyg ymgynghorol wrth ymateb i COVID Hir.
- Bydd Rhun yn ystyried cysylltu â San Steffan ynghylch cymorth i bobl sy'n ei chael hi'n anodd oherwydd effaith ariannol COVID Hir.

Awgrymiadau ar gyfer siaradwyr yn ystod sesiynau yn y dyfodol

- Cynigiodd COVID Hir Cymru siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol, gan gynnwys Dr Helen Davies, un o awduron astudiaeth Delphi; yr Athro Danny Altman; a gweithiwr gofal iechyd sydd â phrofiad o golli swydd yn sgil COVID Hir. Byddai'n ddiddorol clywed mwy gan Triniaeth Deg i Fenywod Cymru am faterion iechyd sy'n effeithio ar fenywod yng Nghymru.